# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION – CYFARFOD RHAGFYR 2018

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 19eg o Ragfyr 2018** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **YSGOL RHOSTRYFAN** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso** |
| | Estynnwyd croeso i bawb gan y Cadeirydd Aeron M Jones. Yn bresennol roedd Gwilym Thomas, Jason Hunt, Peter Roberts, Michelle Williams, Rhodri Dwyfor, Huw Rowlands ac Eleri Thomas (Clerc). Hefyd yn bresennol roedd cynrychiolydd o Grŵp Cynefin. |
| **2.** | **Ymddiheuriadau** |
| | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gwilym Lloyd Williams, Bryn Hughes, Tom Ellis, Elin Evans a Nerys Evans. |
| **3.** | **Datgan Buddiant** |
| | Dim buddiant wedi ei ddatgan. |
| **4.** | **Cadarnhau cofnodion 21.11.18 a materion yn codi** |
| | Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gan MW ag eiliwyd gan RD.<br><br>Materion yn codi<br>5. Adroddwyd fod Pennaeth, Ysgol Rhosgadfan, wedi cytuno i ofyn i'r disgyblion am syniadau ar gyfer enw i'r stad newydd sydd yn cael ei adeiladu ger Dreflan.<br><br>6. Cais cynllunio ger Tan y Celyn, Talardd a Sŵn y Môr - cadarnhaodd AMJ fod cyfarfod cynllunio ar y mater hwn wedi ei ohirio tan fis Ionawr 2019.<br><br>10. Cyfarfod Grŵp Chwarel Moel Tryfan - Cadarnhaodd AMJ fod 4 x cynllun wedi derbyn swm ariannol o £138 yr un. Nodwyd fod y chwarel wedi cytuno i beidio ag anfon lorïau allan ar ddydd Sadwrn, a byddent yn anfon 1 llwyth ychwanegol ganol yr wythnos. |
| **5.** | **Cyflwyniad gan Mair Edwards, Rheolwr Mentrau Cymunedol, Grŵp Cynefin** |
| | Estynnwyd croeso i Mair Edwards, Rheolwr Mentrau Cymunedol, Grŵp Cynefin. Derbyniwyd cyflwyniad gan Mair am y gwaith ymgynghori ar y newidiadau sydd yn digwydd yn yr ardal. Nodwyd fod 3 x cynllun ar y gweill:<br><br>1. Tai a gofal - dywedodd bod ymgynghori yn mynd yn ei flaen ar gynyddu gofal preswyl, anghenion tai a gofal meithrinfa.<br>2. Gofal Iechyd Cymdeithasol - dywedodd bod ymgynghori yn mynd yn ei flaen ar sefydlu un safle penodedig ym Mhenygroes ar gyfer meddygfa, clinic, denitydd a'r bwriad y byddai holl adrannau gofal iechyd yn cydweithio gyda'i gilydd.<br>3. Ymgysylltu Cymunedol – gwaith ar fapio ardal Dyffryn Nantlle.<br><br>Cododd GT bwynt, fod meddygfa Rhosgadfan wedi cau erbyn hyn ac os posibilrwydd o'i brynu a'i ddefnyddio fel rhan o'r newidiadau yn y gofal iechyd. Nodwyd nad oedd bysus ar gael i drigolion yr ardal fynychu'r feddygfa ym Mhenygroes a dywedodd Mair Edwards bod trafodaethau yn cynnwys ariannu ar gyfer bws cymunedol.<br><br>Penderfynwyd ethol aelod o'r Cyngor Cymuned i fynychu cyfarfodydd Mentrau Cymunedol yn y dyfodol. |
| **6.** | **Materion misol** |

| | |
|---|---|
| | **a) Trydan**<br>Nodwyd fod dipyn o broblemau gyda'r trydan wedi diffodd dros y dyddiau diwethaf, ond nodwyd fod hynny oherwydd y tywydd garw.<br><br>**b) Bysiau**<br>Eglurodd AMJ bod newidiadau yn cael ei wneud i'r amserlen bysiau.<br><br>**c) Diffibriliwr Rhostryfan**<br>Eglurwyd bod angen gosod y blwch ar y wal a bydd cost o £200 y flwyddyn i'w redeg. Nodwyd fod Ysgol Rhosgadfan a Llanwnda gyda diddordeb mewn prynu diffibriliwr a byddai cost oddeutu £1500 i'w prynu. Ystyriwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn gallu rhoi cymorth ariannol tuag at hyn.<br><br>**d) Graeanu**<br>Dywedodd AMJ ei fod wedi anfon copi o ymateb cwmni yswiriant Zurich ynglŷn â graeanu ymlaen i Steffan, CG er mwyn derbyn ei farn cyn mynd yn gyhoeddus hefo risg graeanu.<br><br>**e) Twll yn llwybr Bryngwyn**<br>Yn absenoldeb NE, penderfynwyd trafod y mater hwn yn y cyfarfod nesaf.<br><br>**f) Cyfansoddiad a Pholisïau'r Cyngor**<br>Cytunodd AMJ y byddai'n rhannu copi caled allan i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf. Nododd y byddai'r Polisïau i gyd mewn lle erbyn mis Mawrth.<br><br>**g) Safle we gyfredol + ymgysylltu gyda'r cyhoedd – www.cyngorllanwnda.co.uk**<br>Eglurodd y clerc fod newidiadau wedi ei wneud i'r wefan oherwydd diogelwch a bod y gwaith yn mynd yn ei flaen.<br><br>**h) Rhaglen waith 5 mlynedd 2019 – 2023**<br>Trafododd AMJ y byddai rhan o'r prosiect 5 mlynedd i gynnwys arian penodedig i'r tair ysgol tu fewn i'r gymuned. Yn ogystal dyrannu arian i gynnal a chadw'r diffibriliwr yn Rhostryfan ac ariannu i brynu diffibriliwr i Lanwnda a Rhosgadfan.<br><br>**i) Taclo baw cwn**<br>Penderfynwyd parhau gyda'r gwaith ymchwil.<br><br>**j) Aelod newydd – Ward Dinas**<br>Croesawyd HR yn swyddogol i'r swydd fel cynghorydd Ward Dinas, ac arwyddwyd y ffurflen datgan derbyn swydd. Cyflwynodd Huw ei hun ag ymhelaethodd am ei gefndir a'i gysylltiad gyda'r ardal.<br><br>**k) Mynwent Cefnfaes – goeden angen ei thorri**<br>Dywedodd y clerc y byddai'n cysylltu gyda Chwmni Gwalch i holi beth oedd diweddariad gyda'r gwaith torri'r goeden.<br><br>**l) JH – Cae Coch / Tan y Fron, Rhostryfan**<br>Adroddodd y clerc ei bod yn disgwyl ymateb gan CG.<br><br>**m) GW - Sgwâr Rhos Isaf - graen wedi casglu**<br>Adroddodd y clerc ei bod yn disgwyl ymateb gan CG.<br><br>**n) GW - Sgwâr Rhos Isaf o Gae Garw - angen ail batchio**<br>Adroddodd y clerc ei bod yn disgwyl ymateb gan CG. |

| | |
|---|---|
| | **o) GW - Sgwâr Rhos Isaf i gyfeiriad Rhostryfan - brigau yn tyfu i'r Ffordd, oes modd i CG gysylltu gyda'r perchnogion?**<br>Adroddodd y clerc ei bod yn disgwyl ymateb gan CG. Nodwyd hefyd fod "pot hole" ar sgwâr Rhostryfan tuag at yr ysgol, ger Tŷ Talybont, dros ffordd a'r siop.<br><br>**p) BT - Llwybr heibio'r capel i'r sgwâr angen ei dorri unwaith eto**<br>Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r contractwr torri gwair i ofyn iddo gwblhau'r gwaith.<br><br>**q) MW – Dwr yn sefyll ger Bryn Bach, Rhosgadfan**<br>Gofynnwyd i'r clerc i gysylltu gyda CG i agor ffoes, (derbyniwyd lluniau gan MW).<br><br>**r) RD – Swydd Uwch Gwyrfai – clerc i gysylltu gyda Rhys Owen i ofyn be all y gymuned elwa ohono.**<br>Adroddwyd fod Dion Roberts wedi ei benodi i fel swyddog prosiect Uwch Gwyrfai.<br>Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gydag ef a'i wahodd i'r cyfarfod nesaf.<br><br>Gofynnodd AMJ os fyddai'n bosib i'r clerc ysgrifennu at Gartrefi Cymunedol i'w hysbysu nad oedd ambiwlans yn gallu mynd i gartref un plentyn yn stad Dreflan oherwydd y ceir oedd yn parcio ar ochr y ffordd. |
| **7.** | **Derbyn Adroddiadau** |
| | **a) Ymateb CG i faterion a godwyd yng nghyfarfod 21ain o Dachwedd 2018.**<br>Adroddodd y clerc nad oedd wedi derbyn ymateb hyd yn hyn.<br><br>**b) Ymateb Dŵr Cymru i broblemau Bro Wyled.**<br>Nododd y clerc fod y gwaith wedi ei ohirio tan fis Ionawr 2019. |
| **8.** | **Materion Ariannol** |
| | **<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar yr 19eg o Ragfyr, 2018</u>** |

**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (21.11.18) | **30,915.21** |
| Llog | 16.88 |
| - Trosglwyddo £1000 o'r cyfrif cadw | - 1,0000 |
| **Balans ar derfyn busnes 19eg o Ragfyr 2018:** | **<u>£29,932.09</u>** |

**<u>2. Cyfrif Siec</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (21.11.18) | **5955.16** |
| + trosglwyddo o'r cyfrif cadw | + 1000.00 |
| - 101097 Cyflog y Clerc Tachwedd 2018 | 446.80 |
| - Cyllid y wlad Tachwedd 2018 | 101.20 |
| - 101093 Antur Nantlle | 156.00 |
| - 101094 Cyngor Gwynedd | 180.00 |
| - 101095 Gwalch Cyf | 1876.00 |
| - 101096 Whitten's Computers | 210.00 |
| - 101098 Wyn Williams | 691.00 |
| **Balans ar derfyn busnes 19eg o Ragfyr 2018:** | **<u>£3294.16</u>** |

| | |
|---|---|
| | **<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 19eg o Ragfyr, 2018</u>**<br><br>Cyflog y clerc Rhagfyr 2018 447.00<br>Cyllid y Wlad Rhagfyr 2018 101.00<br>Yswiriant Zurich Municipal 1519.69<br><br>**Cyfanswm** **<u>£2067.69</u>**<br><br>**Cytunwyd i'r taliadau ar gyfer y mis hwn.** |
| **9.** | **Materion Cynllunio** |
| | **Derbyniwyd 2 x gais cynllunio 18/12/18**<br><br>**Cais: C18/1130/24/LL -** Dymchwel modurdy presennol a chodi estyniad deulawr ochr yn ei le - 2, Tan yr Allt, Rhostryfan, Caernarfon LL54 7PP - **DIM SYLWADAU A DIM GWRTHWYNEBIAD.**<br><br>**Cais: C18/1093/24/LL -** Dymchwel estyniad cefn presennol a chodi estyniadau newydd - Glennydd, Bontnewydd, Caernarfon LL54 7YG **- DIM SYLWADAU A DIM GWRTHWYNEBIAD.** |
| **10.** | **Gohebiaeth a chylchgronau** |
| | **Gohebiaeth a chylchgronau**<br>a) Zurich - Adnewyddu'r polisi. Gan fod y Cyngor wedi ymrwymo i gytundeb 5 mlynedd gyda chwmni yswiriant Zurich, penderfynwyd awdurdodi'r taliad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.<br>b) Cronfa Peilota Gwynedd - Penderfynwyd ei roi a'r agenda'r cyfarfod nesaf.<br>c) Lleu– Nodwyd fod angen rhoi hysbyseb ar gyfer ceisiadau nawdd yn rhifyn Lleu mis Chwefror.<br>d) Llythyr gan Gyngor Tref Caernarfon – Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr o gefnogaeth.<br>e) Ail-strwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd – Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr i beidio cwtogi arian i'r canolfannau iaith.<br>f) Ymgynghoriad ar Bolisi Gosod Tai Cyffredin - nodwyd fod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar bobl leol gael blaenoriaeth ar y rhestr tai cymunedol.<br>Canllaw Cynllunio Atodol - Cynnal Creu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy + Tai Fforddiadwy - MW i roi adborth yn y cyfarfod nesaf. |
| **11.** | **Materion Cyfarfod Nesaf** |
| | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br>MW - Cae Ty Hen, Rhosgadfan - mwd ar y ffordd (plastic wedi ei roi - cofnodion blwyddyn ddiwethaf).<br><br>GT – Wal y fynwent ym Mhenygroes. Angen cysylltu gyda'r clerc i ofyn costau ei adeiladu.<br>Adolygu ffioedd claddu.<br><br>**Dyddiad: 16eg o Ionawr 2019**<br>**Lleoliad: YSGOL RHOSGADFAN** |